# Cyfrifo rhagamcaniad o'r marciau ar gyfer cydrannau mewn manylebau llinol

Mae rhagamcaniad **sgôr p** (absenoldeb rhannol) yn defnyddio safle'r ymgeisydd yn y dosraniad marciau ar gyfer yr asesiad(au) a safwyd gan yr ymgeisydd, i amcangyfrif marc am yr asesiad roedden nhw'n absennol amdano.

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut caiff hyn ei gymhwyso'n ymarferol.

<table>
<tr>
<td>Cam 1</td>
<td>Cyfrifir y marc mwyaf wedi'i agregu sydd ar gael ar gyfer y cydrannau a gwblheir gan yr ymgeisydd.</td>
<td>Yn yr enghraifft hon, roedd yr ymgeisydd yn absennol o Safon Uwch Astudiaethau Ffilm cydran 2 Eduqas
<table>
<tr><th>Assessment</th><th>Maximum mark</th><th>Aggregation factor</th><th>Aggregated maximum mark</th><th>Include if not absent</th></tr>
<tr><td>Component 1</td><td>120</td><td>1.167</td><td>140</td><td>140</td></tr>
<tr><td>Component 2</td><td>100</td><td>1.4</td><td>140</td><td>absent</td></tr>
<tr><td>Component 3</td><td>60</td><td>2</td><td>120</td><td>120</td></tr>
<tr><td colspan="4">Total aggregated maximum mark for completed assessments</td><td>260</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cam 2</td>
<td>I bob asesiad a gwblheir, rydym yn deillio nifer yr ymgeiswyr wnaeth ennill yr un marc neu well â'r unigolyn y mae angen rhagamcanu marc ar ei gyfer.<br><br>Yr enw ar hyn yw 'cyfrifiad cronnus' pob asesiad.</td>
<td>Yn yr enghraifft hon, perfformiodd yr ymgeisydd yn well yng nghydran 3 nag y gwnaeth yng nghydran 1, gan fod llai o ymgeiswyr ar yr un marc neu'n uwch ar gydran 3.
<table>
<tr><th>Assessment</th><th>Mark achieved by candidate</th><th>Number of candidates with same mark or better</th></tr>
<tr><td>Component 1</td><td>62</td><td>1559</td></tr>
<tr><td>Component 2</td><td>absent</td><td>n/a</td></tr>
<tr><td>Component 3</td><td>54</td><td>354</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td>Cam 3</td>
<td>Er mwyn pwysoli'r perfformiad ym mhob asesiad yn unol â manyleb y cymhwyster, caiff gwerthoedd y cyfrifiad cronnus eu pwysoli yn ôl marc mwyaf wedi'i agregu pob asesiad a gwblheir.<br><br>Mae gwneud hyn yn rhoi'r 'cyfanswm cyfrifiad cronnus wedi'i bwysoli'.</td>
<td>
<table>
<tr><th>Assessment</th><th>Mark achieved by candidate</th><th>Number of candidates with same mark or better</th><th>Weighted cumulative count</th></tr>
<tr><td>Component 1</td><td>62</td><td>1559</td><td>218260</td></tr>
<tr><td>Component 2</td><td>absent</td><td>n/a</td><td>n/a</td></tr>
<tr><td>Component 3</td><td>54</td><td>354</td><td>42480</td></tr>
<tr><td>Total weighted cumulative count</td><td></td><td></td><td>260740</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cam 4</td>
<td>Rhannwn y cyfanswm cyfrifiad cronnus wedi'i bwysoli â chyfanswm y marc mwyaf wedi'i agregu ar gyfer yr asesiadau a gwblhawyd.<br><br>Mae hyn yn rhoi safle cyfrifiad cronnus wedi'i amcangyfrif yr ymgeisydd – hynny yw, lle yr amcangyfrifir y dylai'r ymgeisydd fod yn nhrefn restrol gyffredinol y cymhwyster.</td>
<td>Mae'r cyfrifiad cronnus wedi'i amcangyfrif yn cwympo rhwng cyfrifiad cronnus pob asesiad ond fymryn yn agosach at un Cydran 1 oherwydd bod marc mwyaf wedi'i agregu uwch gan yr asesiad hwnnw.
<table>
<tr><td>Total weighted cumulative count</td><td>260740</td></tr>
<tr><td>Total aggregated maximum mark for completed assessments</td><td>260</td></tr>
<tr><td>Estimated cumulative count position</td><td>1003</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td>Cam 5</td>
<td>Amcangyfrif marc terfynol yw'r cam olaf. Cynhyrchir yr amcangyfrif ar lefel cymhwyster, ddim ar gyfer y gydran yr oedd yr ymgeisydd yn absennol ar ei chyfer.<br><br>Dewisir y gwerth cyfrifiad cronnus sydd agosaf at y gwerth wedi'i amcangyfrif a gyfrifwyd yng ngham 4, ond sy'n is na'r gwerth hwnnw.<br><br>Yna dewisir y marc cymhwyster a enillwyd gan yr ymgeiswyr hynny fel marc wedi'i amcangyfrif yr ymgeiswyr.</td>
<td>Er bod 1009 y gwerth agosaf at yr amcangyfrif (a ddylai roi canlyniad wedi'i amcangyfrif y cymhwyster o 140 i'r ymgeisydd), mae'r system yn cymryd y gwerth agosaf, sy'n is na safle'r cyfrifiad cronnus wedi'i amcangyfrif i'r ymgeisydd. Yn yr enghraifft hon, 981 yw'r gwerth hwnnw, ar farc cymhwyster o 141.<br><br>141, felly, yw marc wedi'i amcangyfrif yr ymgeisydd.<br><br>
<table>
<tr><th>Qualification mark</th><th>Number of candidates at mark or higher</th></tr>
<tr><td>...</td><td>...</td></tr>
<tr><td>143</td><td>920</td></tr>
<tr><td>142</td><td>946</td></tr>
<tr><td>141</td><td>981</td></tr>
<tr><td>140</td><td>1009</td></tr>
<tr><td>139</td><td>1059</td></tr>
<tr><td>...</td><td>...</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
</table>